

Diogelwch canhwyllau

- Gwnewch yn siŵr bod canhwyllau'n cael eu dal yn ddiogel mewn daliwr priodol ac yn ddigon pell o ddefnyddiau a allai fynd ar dân – megis llenni
- Diffoddwch ganhwyllau pan fyddwch yn gadael yr ystafell, a gwnewch yn siŵr eu bod yn cael eu diffodd yn llwyr yn y nos
- Defnyddiwch laniadur neu lwy i ddiffodd canhwyllau. Mae'n fwy diogel na'u chwythu allan gan y gall gwreichion hedfan
- Ni ddylid gadael plant ar eu pennau eu hunain gyda chanhwyllau sydd ynghyn



Sigaréts

- Diffoddwch sigaréts yn iawn a'u gwaredu'n ofalus. Diffoddwch nhw. Diffodwch nhw'n llwyr!
- Peidiwch byth â smygu yn y gwely
- Defnyddiwch flwch llwch iawn – peidiwch byth â defnyddio basged
- Gwnewch yn siŵr nad yw eich blwch llwch yn rhy fach a'i fod wedi'i wneud o ddeunydd na fydd yn llosgi
- Peidiwch â gadael sigarét, sigar neu getyn o gwmpas y lle. Gallant gwmpo a dechrau tân yn hawdd
- Cymerwch ofal ychwanegol os ydych chi'n ysmegu pan fyddwch wedi blino, yn cymryd cyffuriau ar bresgripsiwn, neu os ydych chi wedi bod yn yfed alcohol. Efallai y byddwch yn syrthio i gysgu a chynnu tân yn eich gwely neu soffâ
- Cadwch matsis a thanwyr allan o gyrraedd plant
- Ystyriwch brynu tanwyr sy'n a blychau matsis na all plant eu hagor

